BETH ALLWCH CHI EI WNEUD?

DAWNUS MEWN ADDYSG GREFYDDOL

Beth allwch chi ei wneud â'r bobl ifanc hynny sy'n ddawnus mewn Addysg Grefyddol fel rhan o'r Dathliad Cenedlaethol Addysg Grefyddol? Y peth pwysicaf i'w gofio yw bod Addysg Grefyddol sy'n dda i bobl ifanc alluog iawn yn aml yn dda i bob unigolyn ifanc. Er hynny, dyma rai awgrymiadau am weithgareddau lle gall pob unigolyn ifanc ddisgleirio.

Dadl Addysg Grefyddol

Ymunwch ag ysgol arall i gael dadl Addysg Grefyddol. Gall pobl ifanc ysgolion uwchradd a disgyblion hynaf ysgolion cynradd gymryd rhan mewn dadleuon. Gallai pob ysgol ddarparu tîm o bedwar.

Cytunwch ar gynnig a gofynnwch i un tîm o un ysgol siarad o blaid y cynnig a'r llall i siarad yn erbyn. Cyfyngwch yr areithiau i ddim mwy na 3 munud. Ar ôl y prif areithiau, gwahoddwch gyfraniadau gan bawb.
Gallech neilltuo bore cyfan i wneud hyn gan ddadlau ynghylch tri neu bedwar cynnig. Byddai'n syniad da canfod a oes modd defnyddio Siambr y Cyngor lleol. Os yw ar gael, gallech ddefnyddio'r Siambr i ychwanegu gravitas go iawn i'r achlysur.

Pynciau posibl y gallech ddadlau yn eu cylch:
Mae'r Tŷ hwn yn credu:

- 'Mae pobl wedi anghofio ystyr y Nadolig'
- 'Yr unig reol y dylem ei dilyn er mwyn byw bywyd da yw 'Peidier â gwneud niwed'
- 'Dylid cadw symbolau crefyddol yn breifat ac o'r golwg'
- 'Mae crefydd wedi dod â mwy o heddwch na rhyfel i'r ddynoliaeth'
- 'Rhaid i bobl ofalu am eu teuluoedd cyn dechrau poeni am y tlawd'

Cystadleuaeth ysgrifennu Addysg Grefyddol

Nid oes raid i chi fod yn gyflym i fod yn ddawnus mewn Addysg Grefyddol. Os nad ydych bob amser yn gallu canfod atebion du a gwyn i faterion crefyddol, ac yn dod o hyd i'r atebion llwydaidd 'ansicr' yn y canol, y peth olaf y byddwch am ei wneud yw ymrwymo'ch hun i ymateb cyflym a rhy barod. Mae rhai pobl ifanc alluog iawn yn gorfod cael amser, lle a phreifatrwydd i ystyried eu hatebion.

Mae cystadleuaeth ysgrifennu lle gall pobl ifanc ysgrifennu rhwng 300 a 500 gair dros gyfnod o ryw bedair neu bum wythnos, yn eu galluogi i feddwl o ddifrif am eu barn, ymchwilio i wybodaeth, newid eu meddyliau ac ystyried yn ofalus rhai o'r dadleuon gwrthwynebol. Gallech gynnal gwasanaeth, tebyg i seremoni'r Oscars, lle mae enghreifftiau o'r gwaith ysgrifennu gorau yn cael eu dathlu. Rhowch y cystadleuwyr gorau at ei gilydd mewn llyfryn ar gyfer yr ysgol neu ceisiwch eu cyhoeddi ar wefan pobl ifanc alluog a thalentog megis 'Publishing House Me' www.publishinghouse.me.uk

Codi cwestiynau

Anogwch bobl ifanc i godi cwestiynau am grefydd. Yn aml iawn mae Addysg Grefyddol yn digwydd ar ffurf athro yn cyflwyno adnodd, e.e. fideo, arteffact, delwedd neu ddarn o destun, gan holi cyfres o gwestiynau i ddilyn. Y patrwm yw bod athrawon yn holi cwestiynau y mae disgyblion yn ceisio eu hateb. Gwrth-drowch y fformat hwn trwy annog pobl ifanc i holi cwestiynau am grefydd. Er enghraifft, cyn adrodd stori grefyddol, megis Porthi'r Pum Mil, dywedwch wrth y disgyblion eich bod am ofyn iddynt ysgrifennu cwestiwn gwirioneddol dda y mae'r stori wedi'i godi iddyn nhw. Ar ôl gorffen y stori, rhowch amser i'r

disgyblion gyfansoddi eu cwestiynau. Yn aml mae'r cwestiynau go iawn sydd gan bobl ifanc am grefydd, a'r cwestiynau hynny y maent yn dymuno eu trafod, yn llawer mwy uchelgeisiol na'r cwestiynau y mae athrawon Addysg Grefyddol yn barod i'w holi. Gofalwch eich bod yn dilyn o leiaf rhai o'r cwestiynau hyn ymlaen. Mae pobl ifanc alluog iawn, a phob unigolyn ifanc mewn gwirionedd, yn llawer mwy tebygol o fod â diddordeb mewn Addysg Grefyddol os ydynt yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt ac os ydynt yn ceisio mynd i'r afael â'r cwestiynau y maent am gael atebion iddynt.

Ysgrifennu Heriol

Arddangoswch enghreifftiau gwirioneddol heriol o ysgrifennu am grefydd o amgylch yr ysgol a gwahoddwch bobl ifanc i'w hystyried. Nid oes raid i'r gwaith ysgrifennu fod wedi'i anelu at blant. Mae pobl ifanc alluog iawn yn aml yn teimlo balchder os yw athrawon yn rhoi deunyddiau cymhleth iddynt sydd wedi'u hanelu at oedolion.

Gellir dethol dyfyniadau, gan addasu rhywfaint arnynt, o lyfrau megis The Varieties of Religious Experience gan William James, Chasing the Dragon gan Jackie Pullinger, Autobiography gan Malcolm X neu lyfr Jonathan Sachs, The Dignity of Difference. Yn ogystal, peidiwch ag anwybyddu gwaith ysgrifennu clir a rhagorol yr adolygydd crefyddol beirniadol Richard Dawkins, sy'n gadarn ac yn aml yn anfoesgar. Er enghraifft, mae ei sylwadau ef yn The God Delusion am y syniad bod crefydd a gwyddoniaeth yn ddau faes ar wahân (NOMA) yn gallu bod yn bwynt trafod poblogaidd ymhlith pobl ifanc, yn ogystal â dyfyniadau o Unweaving the Rainbow lle mae, fel anffyddiwr, yn mynegi fod gennym lawer i'w ddathlu yn y ffaith hynod ac odidog ein bod yn fyw.

Cymuned Ymchwilgar

Os nad ydych wedi rhoi cynnig ar 'Gymuned Ymchwilgar' o'r blaen, gwnewch hynny yn ystod y Dathliad Cenedlaethol Addysg Grefyddol. Gall ysgolion cynradd ac uwchradd ddefnyddio'r strategaeth hon. Y ffordd fwyaf syml o gynnal Cymuned Ymchwilgar yw dangos deunydd symbylol i'r disgyblion. Gall hwn fod, er enghraifft, yn ffotograff o deulu yn dathlu gŵyl grefyddol, neu lun o lawenydd ar wynebau criw achub ar ôl tynnu gwraig allan o rwbel yn dilyn daeargryn. Gofynnir i'r disgyblion feddwl am gwestiwn diddorol y mae'r llun yn ei godi iddynt. Dewisir y cwestiynau gorau ac yna, o'r rheiny, gall y disgyblion benderfynu pa gwestiynau i ymchwilio iddynt. Bydd y disgyblion wedyn yn trafod y cwestiwn y maent wedi'i ddewis.

Fodd bynnag, i gynnal Cymuned Ymchwilgar yn briodol, ni all y disgyblion eistedd mewn grwpiau neu mewn rhesi yn wynebu'r athro. Rhaid ffurfio cylch mawr fel bo pawb yn gallu gweld a chlywed ei gilydd. Dylai'r athro ymuno yn y cylch ond y disgyblion ddylai gynnal y drafodaeth ac felly dylai'r athro wrando'n astud heb ymuno yn y drafodaeth. Er hynny, mae rheolau'n perthyn i'r Cylch Ymchwilgar a rhaid i bawb wrando, defnyddio iaith gwrtais a pheidio â thorri ar draws. Mae'r dechneg hon yn ffordd hynod bwerus o ennyn diddordeb disgyblion mewn trafodaeth ddwyochrog 'rat-tat-tat'. Yn aml fe welwch y disgyblion yn parhau â'r drafodaeth wrth adael yr ystafell ddosbarth neu'n meddwl oriau yn ddiweddarach am ffyrdd o gryfhau neu wneud eu dadl neu bwynt yn fwy eglur.

Hercio

Mae tasgau disgrifiadol a galw i gof yn mynnu llai o sgiliau na gweithgareddau sy'n cynnwys dehongli, esbonio a dadansoddi. Fodd bynnag, mae llawer o amser ac egni yn mynd ar dasgau galw i gof a disgrifio mewn Addysg Grefyddol. Er enghraifft, nid yw'n anghyffredin wrth ddysgu am stori grefyddol, megis Stori'r Creu yn y Beibl, i amser gael ei dreulio ar rannu tudalennau'n chwe rhan er mwyn tynnu chwe llun yn cynrychioli bob dydd o'r cread, ac ysgrifennu o dan bob llun. Mae'r gweithgaredd hwn yn aml yn cael ei alw'n dasg 'esbonio' ond yn aml nid yw'n fawr mwy na thasg gopïo gan fod y geiriau'n debyg o fod wedi'u codi o destun a ddarparwyd. Ar ôl gorffen tynnu'r lluniau, lliwio a labelu, mae'r amser sydd ar ôl i drafod, archwilio, dehongli neu esbonio'r stori yn aml yn brin. Mae hercio'n fwriadol yn cynnwys dileu'r gweithgareddau disgrifiadol hirwyntog hyn.

Mae'n golygu atgoffa pobl ifanc yn gyflym o hanfodion y stori y maent yn debygol o fod wedi'i chlywed sawl gwaith o'r blaen. Mae'n cynnwys hercio dros fanylion y stori gan roi mwy o amser difrifol i'r cwestiwn, 'Beth yw neges gyffredinol y stori hon?' Yn hytrach na galw ffeithiau'r stori i gof, er enghraifft, beth a grëwyd ar y 3ydd diwrnod, neu beth a wnaeth Duw ar y 5ed diwrnod, gall Addysg Grefyddol ddathlu mynd i'r afael â chwestiynau llawer mwy diddorol a phwysig megis, 'Beth yw ystyr y stori hon?' 'Sut mae gwahanol bobl yn ei dehongli?' 'Pa ddehongliad o'r stori sy'n apelio fwyaf atoch chi?' Casglwch y dehongliadau mwyaf diddorol a chyhoeddwch nhw ar wefan yr ysgol.

Amser Holi

Mae 'Amser Holi' yn seiliedig ar raglen y BBC 'Question Time'. Cysylltwch â phedwar neu bump o arweinwyr ffydd lleol i fod yn banel o arbenigwyr. Gallent fod yn arweinwyr ffydd – offeiriaid, gweinidogion, rabi, imam – ond gallent hefyd fod yn aelodau lleyg sy'n rhoi pwys ar ffydd.

Y bobl ifanc fydd y gynulleidfa a byddant wedi paratoi cwestiynau i'w holi. Bydd angen amser i baratoi hyn. Gosodwch 'Flwch Cwestiynau' yn yr ystafell ddosbarth ac anogwch y disgyblion i bostio eu cwestiynau yn y blwch. Gosodwch bensil a llyfr nodiadau ger y 'Blwch Cwestiynau' a gofynnwch i'r disgyblion beidio ag anghofio, neu adael i gwestiwn da fynd, ond yn hytrach ei ddal a'i bostio yn y blwch. Mae'n bosibl y bydd angen addasu rhai cwestiynau. Mae'n syniad da cael y disgyblion i ddyfalu pa fath o atebion fydd aelodau'r panel yn eu rhoi a gofyn iddynt baratoi un, neu sawl cwestiwn ychwanegol. Recordiwch y digwyddiad cyfan ar ffilm.

Cwis Addysg Grefyddol

Mae bod yn ddawnus mewn Addysg Grefyddol yn golygu mwy na gallu galw i gof ac yn aml, fel y byddech yn disgwyl, mae gan bobl ifanc alluog mewn Addysg Grefyddol gorff cadarn iawn o wybodaeth grefyddol. Gall Cwis Addysg Grefyddol ddathlu hyn. Gellir cynnal Cwis Addysg Grefyddol yn yr ysgol neu gallwch uno ag ysgolion eraill i gael cystadleuaeth.

Gallai disgyblion gystadlu mewn timau o bedwar. Dylid cynnal rowndiau o ddeg cwestiwn gan roi adborth am yr atebion a safle pob tîm rhwng pob rownd er mwyn cadw eu diddordeb. Gellid rhannu'r rowndiau yn feysydd pynciau traddodiadol megis gwyliau, mannau addoli, defodau newid byd, llyfrau sanctaidd, arweinwyr crefyddau. Ond yn aml mae'n help cynnwys rowndiau ychydig yn wahanol megis rownd ffilmiau, teledu a cherddoriaeth sydd â thema grefyddol, e.e. Pa gân roc gan Queen a ysgrifennwyd yn 1975 sy'n ailadrodd brawddeg o'r Qur'an 'Bismillah' sy'n golygu 'Yn Enw Duw'? Mae'n well cadw cwisiau'n ysgafn. Nid oes unrhyw beth o'i le ar arddangos gwybodaeth ffeithiol am grefydd ond dylid cadw persbectif iach. Wedi'r cyfan, mae gwybod ffeithiau yn ddawn fach iawn o'i chymharu â'r ddawn o gael dealltwriaeth, mewnwelediad, dadansoddiad ac empathi, ond mae cwis yn gyfle i gyfuno galw ffeithiau i gof a chael hwyl.

Gwybodaeth Ar-lein i Rieni

Mae addysg i ddisgyblion mwy galluog a thalentog yn rhoi pwyslais ar gael ysgolion a rhieni i gydweithio er mwyn helpu eu plant galluog iawn i gyrraedd eu llawn botensial. Gellir atgyfnerthu'r berthynas rhwng ysgolion a rhieni pobl ifanc sy'n alluog mewn Addysg Grefyddol trwy dynnu eu sylw yn ystod y Dathliad Cenedlaethol Addysg Grefyddol.

I wneud hyn, rhowch wybodaeth ar-lein fel bo rhieni pobl ifanc alluog yn gallu gweld manylion yr hyn y bydd eu plant yn eu hastudio mewn Addysg Grefyddol. Gallai'r wybodaeth hon gynnwys yr hyn a addysgir yn y chwech neu ddeg gwers Addysg Grefyddol nesaf, pa fath o syniadau neu faterion y

bydd gofyn i'w plant eu hystyried, pa weithgareddau, cwestiynau, gwaith cartref neu aseiniadau penodol y bydd gofyn iddyn nhw eu gwneud. Mae'n bosibl gwahodd rhieni i astudio'r un pwnc â'u plentyn, wedi'r cyfan, ni ddylid edrych ar ddysgu fel gorchwyl y mae pobl ifanc yn ddigon ffodus i'w chael. Gellid gwahodd rhieni i mewn i'r gwersi neu eu hannog i fynd ar ymweliad Addysg Grefyddol. Os gwelir y rhieni'n dangos diddordeb mewn dysgu hefyd, os ydynt hefyd yn fyfyrwyr, maent yn darparu model rôl ardderchog i'w plant. Ond hyd yn oed yn fwy na hyn, mae'r rhieni'n cael eu gosod mewn sefyllfa llawer gwell i drafod y materion y mae eu plant yn gorfod meddwl amdanynt mewn Addysg Grefyddol gyda'u plant. Yn hytrach na'r cwestiwn eithaf di-nod, 'Sut hwyl wyt ti'n ei gael yn yr ysgol?' gall rhieni ofyn cwestiynau llawer mwy craff i'w plant dros frecwast ynglŷn ag Addysg Grefyddol yn yr ysgol.

Y Cyfweliad Ffydd

Mae pobl ffydd o'n hamgylch bob dydd. Dathlwch hyn trwy ofyn i'ch pobl ifanc alluog gyfweld ag unigolion am eu ffydd. Nid oes raid i'r bobl a ddewiswch i'w cyfweld fod yn gynrychiolwyr crefydd swyddogol megis offeiriad, rabi neu imam. Gallent fod yn gyfaill, ewythr, cynorthwy-ydd dosbarth, llywodraethwr neu gynorthwy-ydd labordy. Gyda mesurau amddiffyn plant priodol, gallai fod yn wirfoddolwr o'r siop Help the Aged leol neu fydwraig sydd wedi dychwelyd ar ôl gwneud gwaith gwirfoddol yn Sierra Leone.

Nid yw Cyfweliad Ffydd o reidrwydd yn ymwneud â chrefydd benodol ond yn fwy am yr unigolyn a'i siwrnai ysbrydol. Mae gan nifer o bobl hanes siwrnai ysbrydol ryfeddol i'w hadrodd. Dylai'r cwestiynau ganolbwyntio ar hanes eu bywydau: 'Beth oedd eich credoau cynnar?' 'Pa atgofion sydd gennych am grefydd?' 'Pryd ddechreuodd eich barn newid?' 'A gafodd eich meddwl ei newid gan rywbeth penodol?'

Mae cyfweliadau ffydd yn galluogi pobl ifanc i ddeall crefydd yn agos, i ddeall nad yw ffydd bob amser yn syml i'w ddeall ac y gall fod yn llawn amheuon ac ansicrwydd, uchafbwyntiau ac isafbwyntiau. Gall ffydd sefyll fel craig, efallai y bydd yn gwneud newidiadau bach fesul tipyn dros y blynyddoedd, neu gall ffydd gyrraedd yn annisgwyl, diflannu neu newid mewn ffyrdd dramatig a sydyn.

Gwefan What is RE?

Efallai y bydd gofyn i bobl ifanc alluog ddathlu Addysg Grefyddol trwy lunio a chynhyrchu cyfres o dudalennau gwe sy'n archwilio'r cwestiwn 'Beth yw Addysg Grefyddol?' Gallai'r 'tudalennau' gynnwys llais y bobl yn yr ysgol a thu hwnt ynglŷn â'r cwestiwn 'Beth yw Addysg Grefyddol?' Dylai'r tîm cynhyrchu wybod nad yw arolwg 'vox pop' yn gynrychiolaeth ddifrifol o farn boblogaidd. Mae'r mwyafrif o vox pops yn cael eu golygu'n agos i godi mater pwysig, cynhyrchu diddordeb neu gyfleu argraff.

Gallai bobl ifanc roi cynnig ar gynhyrchu ffilm ddogfennol hirach a mwy meddylgar wedi'i recordio yn y gymuned leol dan y teitl 'Pam fod Addysg Grefyddol yn bwysig?' Gellid cynnwys trafodaeth ar dâp am 'Sut allwch chi ddysgu oddi wrth crefydd?'. Neu gallai'r safle gynnwys swigod meddwl unigolion yn disgrifio'r hyn y maent wedi'i ddysgu o grefydd.

Gallai'r safle hefyd gynnwys ystafell sgwrsio i drafod pynciau allweddol megis 'Addysgu pobl i fod yn grefyddol ac addysgu Addysg Grefyddol - beth yw'r gwahaniaeth?' neu 'Beth yw'r peth gorau am Addysg Grefyddol'.

Yn amlwg, bydd angen monitro'r wefan yn fanwl - wedi'r cyfan rhaid i bobl ifanc ddeall fod rhaid i ffriff y wefan, fel rhan o'r Dathliad Cenedlaethol, fod yn obeithiol a phositif.